The Coal Authority




# Cynllun busnes
# 2022 i 2025

# Cynnwys


Pwy ydym ni ..... 3

Rhagair ..... 6

Ein cenhadaeth, diben a gwerthoedd ..... 8

Ein gweledigaeth ar gyfer 2032 ..... 10

Cynnydd yn unol â'n Cynllun Busnes blaenorol ..... 12

Themâu Cynllun Busnes 2022 i 2025 ..... 13

Cyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ..... 14

Sicrhau cynaliadwyedd ..... 18

Gweithio gyda phobl eraill i greu gwerth ..... 22

Creu lle gwych i weithio ..... 26

Sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol ..... 30

Ein pobl ..... 34


Llun clawr: Lunar-C Media

# Pwy ydym ni

Mae'r Awdurdod Glo yn rheoli'r gwaddol o orffennol cloddio glo ym Mhrydain Fawr. Mae cymaint o hanes ein 3 cenedl wedi cael ei ffurfio gan y mwynau naturiol o dan ein pridd.

Dim byd yn fwy na glo, sydd wedi darparu gwres, stêm a phŵer am gannoedd a channoedd o flynyddoedd. Cafodd glo ei wladoli ym 1947, a dyna pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn berchen ar fwyafrif y gweithfeydd dan y ddaear a'r adnoddau glo sy'n weddill o dan Gymru, Lloegr a'r Alban, ynghyd â'r cyfrifoldeb am lawer o'r heriau a'r peryglon cysylltiedig. Gan fod cloddio glo domestig wedi lleihau, a dynoliaeth yn cydnabod effeithiau llosgi carbon ar ein hinsawdd, rydym yn chwilio am ffyrdd amgen o uchafu cyfleoedd carbon isel o byllau glo caeedig a segur, fel rhwydweithiau gwres dŵr pyllau glo. Gall y rhain ddarparu gwres ar gyfer cartrefi a busnesau, tra'n sicrhau canlyniadau carbon sero a ffyniant bro hefyd ar gyfer cymunedau y crëwyd eu hunaniaeth o lo, ac a allai elwa nawr ar fuddion carbon isel, cymdeithasol ac economaidd o'r dŵr cynnes yn yr asedau glofaol hanesyddol.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, cymunedau a chwsmeriaid i wrando, dysgu a chymryd camau ymarferol i'w cynorthwyo i greu cymunedau glanach, gwyrddach a mwy diogel. Rydym yn sefydliad sy'n ymateb mewn argyfwng 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, sydd â staff ledled Prydain Fawr sy'n barod i ymateb a gweithredu er mwyn cadw pobl yn ddiogel a rhoi tawelwch meddwl iddynt. Mae meysydd glo helaeth yn bodoli ledled Prydain Fawr, ac amcangyfrifir bod 25% o gartrefi a busnesau ledled Prydain Fawr wedi eu lleoli uwchben hen byllau glo. Bydd mwyafrif helaeth y bobl byth yn profi unrhyw broblemau yn sgil hynny, ond i'r rheiny sydd yn eu profi, rydym ni yma i gynnig cymorth ac arbenigedd.

Mae'r Awdurdod Glo yn gorff cyhoeddus anadrannol ac yn sefydliad partner yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).







"Mae'r Awdurdod Glo yn gwneud gwaith hanfodol i gadw pobl, dŵr yfed a'r amgylchedd yn ddiogel rhag effeithiau gwaddol ein treftadaeth lofaol. Ar yr un pryd, maent yn gweithio'n arloesol gyda phobl ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i chwilio am gyfleoedd, fel gwresogi dŵr pyllau glo, a fydd yn sicrhau buddion carbon isel, economaidd a chymdeithasol i gymunedau ar draws y meysydd glo, a'u helpu i ffynnu.

"Mae BEIS wedi ymrwymo i gefnogi gwaith rheng flaen yr Awdurdod Glo ac yn annog eu gwaith arloesol i gefnogi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y DU, gan gynnwys trosglwyddo i sero net, ffyniant bro a gweithredu o ran hinsawdd a natur. Mae eu gwaith gyda BEIS a gydag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, y llywodraethau datganoledig, cynghorau lleol, a phartneriaid masnachol yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus, yn creu gwerth i'r trethdalwr ac yn cyfrannu at greu gweledigaeth fwy cynaliadwy ar gyfer Prydain Fawr."

**_Y Gwir Anrhydeddus Greg Hands AS_**

*Gweinidog Gwladol*
*(Gweinidog dros Ynni, Twf Glân a Newid Hinsawdd)*
*Gweinidog noddi ar gyfer yr Awdurdod Glo*

# Rhagair



Mae'n bleser gennym rannu ein Cynllun Busnes gyda chi, sy'n esbonio ein blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith craidd, gan gynnwys ymatebion brys ar gyfer ymsuddiant a pheryglon; atal dŵr pyllau glo rhag llygru dŵr yfed, afonydd neu'r môr; darparu gwybodaeth ac adroddiadau i helpu perchnogion tai, darparwyr seilwaith a phobl eraill i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n dangos sut byddwn yn adeiladu ar arloesedd, ymchwil gymhwysol a chamau gweithredu'r ychydig flynyddoedd diwethaf i sicrhau mwy o gyfle a gwerth, ac yn canolbwyntio ar sut byddwn yn gweithio ac yn parhau i wella ein gwasanaeth i'n cwsmeriaid.

Ysgrifennwyd ein cynllun blaenorol i bara o 2018/19 – 2022/23, ond penderfynodd y bwrdd yrru ein cynllun newydd yn ei flaen am nifer o resymau – y cynnydd rydym wedi'i wneud yn unol â'r cynllun blaenorol; y cyd-destun newidiol yr ydym i gyd yn byw a gweithredu ynddo; a'r cyfle i alinio ag Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, y disgwylir iddo gael ei gynnal o 2022/23 – 2024/25 yn gynhwysol. Gallwch weld mwy am ein cynnydd ar dudalen 12 ac yn ein Hadroddiadau Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cynllun newydd hwn wedi'i osod yng nghyd-destun gweledigaeth 10 mlynedd (gweler tudalen 10), sydd wedi ein helpu i ganolbwyntio ar y tymor hwy – yn enwedig yn ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i gefnogi uchelgeisiau carbon sero net llywodraethau'r 3 cenedl yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r cynllun ei hun yn weithredol am 3 blynedd, o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2025 – sy'n adlewyrchu'r cyfnod Adolygiad Gwariant presennol a hefyd yn cydnabod cyflymdra cynyddol y newid yr ydym i gyd wedi'i weld. Mae pandemig COVID-19, er enghraifft, wedi gorfodi a galluogi newid ar gyfer unigolion a theuluoedd, o ran cymdeithas ac yn y gweithle. Bydd gweithio tuag at ein gweledigaeth 10 mlynedd mewn darnau 3 neu 4 blynedd yn ein galluogi i addasu yn ôl yr angen i gyflawni'r mwyaf y gallwn ni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein cynllun 2022 i 2025 yn uchelgeisiol ac yn alluogol. Mae'n uchelgeisiol o ran dyhead a chyflawni gwaith craidd yn ymarferol, ac yn arloesol a galluogol trwy sicrhau ein bod, tra'n cyflawni, hefyd yn rhoi fframweithiau, ymchwil a datblygu ar waith a fydd yn ein galluogi i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd cymhleth sy'n ein hwynebu yn gliriach. Bydd hyn yn ein galluogi i roi'r camau angenrheidiol ar waith i'n galluogi i gyflymu tuag at yr uchelgeisiau yn ein gweledigaeth 10 mlynedd dros gyfnodau'r 2 Gynllun Busnes nesaf, sy'n mynd â ni i 2032. Bydd hyn yn cynnwys yr agweddau mwy cymhleth ar ein hymrwymiadau sero net a chynaliadwyedd, gan bartneru â sefydliadau cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat i gyflymu'r defnydd o wresogi dŵr pyllau glo ac uchafu'r budd o'n gwybodaeth, cofnodion ac archifau.

Ni fyddai unrhyw ran o'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni yn bosibl heb ymroddiad, ymrwymiad ac angerdd pobl yr Awdurdod Glo sy'n gweithio gyda'n cwsmeriaid a'n partneriaid 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn ôl yr angen i helpu diogelu bywyd, dŵr yfed a'r amgylchedd rhag heriau gwaddol glofaol Prydain Fawr. Eu hymrwymiad i wella ac arloesi sydd wedi ein helpu i fod yn effeithlon, i sicrhau atebion creadigol a phwrpasol i broblemau cymhleth a achosir gan beryglon cloddio glo, a datblygu cyfleoedd newydd o asedau a gwastraff glofaol hanesyddol.

“Ni fyddai unrhyw ran o’r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni yn bosibl heb ymroddiad, ymrwymiad ac angerdd pobl yr Awdurdod Glo sy’n gweithio gyda’n cwsmeriaid a’n partneriaid 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn ôl yr angen i helpu diogelu bywyd, dŵr yfed a’r amgylchedd rhag heriau gwaddol glofaol Prydain Fawr.”

Gallwch weld mwy yn ein hastudiaethau achos cydweithwyr ar dudalennau 34 a 35. Yn ystod cyfnod y cynllun hwn – ac yn sicr wrth edrych tuag at ein gweledigaeth 10 mlynedd – byddwn yn defnyddio ein harbenigedd, angerdd a diwylliant dysgu ar y cyd i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol, a sicrhau mwy o ganlyniadau ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yma ym Mhrydain Fawr, a thu hwnt, o bosibl.

Gwyddom y gallwn ond cyflawni ein cenhadaeth i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl a’r amgylchedd mewn ardaloedd glofaol trwy barhau i wrando a dysgu. Rydym yn eich gwahodd i helpu, ein dwyn i gyfrif a herio lle rydych chi’n meddwl y gallwn ni wneud yn well.



**Jeff Halliwell**
Cadeirydd



**Lisa Pinney MBE**
Prif Weithredwr

# Ein cenhadaeth, diben a gwerthoedd

## Cenhadaeth

Creu dyfodol gwell i bobl
a'r amgylchedd mewn ardaloedd glofaol

## Pwrpas

- Rydym yn cadw pobl yn ddiogel ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt
- Rydym yn diogelu a gwella'r amgylchedd
- Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus
- Rydym yn creu gwerth ac yn lleihau costau i'r trethdalwr

- Creu lle gwych i weithio
- Gweithio gydag eraill i greu gwerth
- Cyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu
- Sicrhau cynaliadwyedd
- Sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol

## Gwerthoedd

Ymddiriedus | Cynhwysol | Blaengar

Datblygwyd ein cenhadaeth, diben a gwerthoedd gyda'n cydweithwyr a mewnbwn gan bartneriaid, ac fe'u mabwysiadwyd gan y bwrdd ym mis Ebrill 2019. Ailedrychwyd ar y rhain fel rhan o'n gweledigaeth a datblygiad y Cynllun Busnes, a chytunodd y bwrdd eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac wrth wraidd ein gwaith a'n hymagwedd.

## Ein gwerthoedd

### Ymddiriedus:


- rydym yn gweithredu ag uniondeb
- rydym yn agored a thryloyw
- rydym yn cyflawni yn unol â'n hymrwymiadau

### Cynhwysol:

- rydym yn hyrwyddo diwylliant o barch ar y ddwy ochr
- rydym yn cydnabod bod ein gwahaniaethau yn ein gwneud yn gryfach
- rydym yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein cenhadaeth

### Blaengar:

- mae gennym feddwl agored, ac rydym yn arloesol
- rydym yn cydnabod y gall y gorffennol ein helpu i ffurfio'r dyfodol
- rydym yn gwrando ac yn dysgu



Trusted
Inclusive
Progressive
The Coal Authority
Making a Better Future for People and the Environment in Mining Areas
Our Vision for 2032
Diverse
Representative
Fit for the Future
Coal mines as a CORE PART of the CATCHMENT
INCREASING SPACE AND HABITAT FOR NATURE
WATER FROM OUR MINES TO SUPPORT DRINKING WATER
COMMUNITY AND CUSTOMER FOCUS
WORKING WITH PARTNERS
sharing knowledge and Expertise
Reducing Waste
ACTING ON THE IMPACTS OF CLIMATE CHANGE
MANAGING THE LEGACY OF OUR COAL MINING PAST
CONNECT PEOPLE TO THEIR MINING HISTORY
Embrace NEW Technology
Digital Transformation
Accessible Services
Bring ALIVE the Story of the PAST TO THE FUTURE
Socially Sustainable Renewables
MINE WATER HEAT AND ENERGY STORAGE
NET ZERO BY 2030
CO2
and Ready to go BEYOND
Learning to do BETTER
Drawn by Siân from WWW.MORETHANMINUTES.CO.UK @visualminutes

# Ein gweledigaeth ar gyfer 2032

Mae ein gweledigaeth 10 mlynedd yn parhau i ganolbwyntio ar ein cenhadaeth i greu 'lle gwell ar gyfer pobl a'r amgylchedd mewn ardaloedd glofaol,' ac mae ein Cenhadaeth, Diben a Gwerthoedd yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Dros y cyfnod hwn, bydd angen i ni barhau i esblygu ac addasu, gan gydnabod y bydd angen hyn ar gyfer ffactorau a chyd-destun allanol (fel newid hinsawdd, disgwyliadau cwsmeriaid a datblygiadau digidol). Rydym yn ystyriol o'r ffaith fod asedau glo hanesyddol yn heneiddio'n barhaus, bod angen cynyddol am gyfleoedd carbon isel ac arloesi, ac y bydd pethau nad ydym yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd yn bendant yn ymddangos, gan gynyddu mewn perthnasedd neu newid trwy'r amseroedd dynamig o'n blaen.

Erbyn 2032, byddwn wedi gwneud cynnydd go iawn i leihau ein hôl-troed carbon ac wedi cyflawni ein huchelgais i fod yn sero net erbyn 2030. Byddwn yn barod i fynd y tu hwnt i hynny, gan uchafu'r defnydd o ynni adnewyddadwy sy'n gymdeithasol gynaliadwy, cynyddu cynefinoedd a gofod ar gyfer natur, a lleihau gwastraff, ble bynnag y bo modd. Byddwn wedi gweithio gydag eraill i wneud cynnydd mewn deall a gweithredu ar effeithiau addasu yn unol â newid hinsawdd i wella dealltwriaeth yn barhaus o effeithiau tywydd eithafol ar sefydlogrwydd tir, draenio, risg ac effeithiau posibl mewn ardaloedd glofaol. Bydd ymchwil, tystiolaeth a dealltwriaeth glir yn ein helpu i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'n dulliau, ac yn dylanwadu ar y cyllid sydd ei angen i'w gweithredu.

Bydd storio gwres ac ynni dŵr pyllau glo yn rhan allweddol o bolisi a gweithredu rhwydwaith gwres gyda nifer o gynlluniau gweithredol – gan gynnwys ar lefel dinas ac fel cynlluniau amlswyddogaethol gyda mathau eraill o wres sy'n uchafu carbon isel, wedi'i brisio'n sefydlog a buddion ffyniant bro ar draws hen gymunedau glofaol Prydain Fawr. Byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ac yn chwilio am fecanweithiau cyllido arloesol i alluogi'r twf hwn. Ni fydd unrhyw solidau haearn yn cael eu claddu ar safleoedd tirlenwi – byddant yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd buddiol, yn hytrach. Bydd y dŵr o'n pyllau glo yn cael ei ddefnyddio i gynnal darpariaeth dŵr yfed a darpariaeth ddiwydiannol mewn dalgylchoedd lle mae prinder dŵr, a byddwn yn mynd ati i weithio gyda phartneriaid ar lefel dalgylch i ystyried pyllau glo fel rhan graidd o'r dalgylch – gyda storio llifogydd a defnydd dŵr ymhlith yr ystyriaethau hynny.

Bydd ein gwasanaethau yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus, rhoi arbenigedd a thawelwch meddwl. Gallwn ddarparu'r rhain yn fyd-eang, lle bo'n berthnasol, ac yn ychwanegol i uchelgeisiau ehangach Cymru, Lloegr a'r Alban. Wrth i gloddio glo ddirywio ledled y byd, byddwn mewn sefyllfa dda i rannu gwybodaeth, arbenigedd a chyngor ymarferol ar sut gellir datgomisiynu cloddio glo yn ddiogel, yn gynaliadwy a thrwy uchafu cyfleoedd carbon isel ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddefnyddio ein harbenigedd a'n sgiliau i leihau effeithiau mathau eraill o fwyngloddio a phethau y tu hwnt i'n cylch gwaith uniongyrchol, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch tomenni glo a gydag adrannau eraill llywodraeth y DU i leihau llygredd o gloddfeydd metel.

Byddwn yn cysylltu pobl â'u hanes glofaol yn well trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy drefnu bod y cofnodion, lluniau a threftadaeth sydd gennym ar gael yn fwy mewn ffordd mor gost effeithiol ag y bo modd.

Rydym yn cydnabod bod y gorffennol yn ffurfio hanesion ein 3 cenedl, a byddwn yn gweithio gydag amgueddfeydd glofaol a phartneriaid eraill i ddod â hyn yn fyw ac adrodd y stori o'r gorffennol i'r dyfodol yn well. Byddwn yn gwneud hyn hyd yn oed pan fydd yn anodd, gan gydnabod camgymeriadau'r gorffennol, a defnyddio'r dysgu hwn i wneud yn well.

Byddwn yn sefydliad mwy amrywiol, cynrychioliadol ac yn ymroi i fod yn wrth-hiliol, sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ffyniant bro, symudedd cymdeithasol a hunaniaethau'r cymunedau glofaol y mae ein gwreiddiau ynddynt.

Bydd ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio yn ategu hyn i gyd. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil technoleg newydd a thrawsnewidiad digidol parhaus i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid gwell a mwy hygyrch, monitro a chyflenwi gweithredol gwell, gan wneud ein gwybodaeth yn haws i gysylltu, rhyddhau ac ymgysylltu ag effeithlonrwydd.

Byddwn yn mesur cynnydd cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr ag agweddau ariannol ar adrodd.

Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth y DU i gydnabod yr uchelgeisiau a'r newidiadau hyn, ac esblygu ein gwaith ymhellach trwy ddeddfwriaeth adnewyddedig, sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Hefyd, byddwn yn ceisio newid ein henw sy'n adlewyrchu natur ein gwaith yn well, yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i recriwtio pobl ddawnus, ac yn gallu gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid amgylcheddol ac arloesol yn y tymor hir.



# Cynnydd yn unol â’n Cynllun Busnes blaenorol

Rydym wedi cyflawni’n gryf yn unol â’n Cynllun Busnes diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 ac a oedd yn cynnwys y cyfnod 2018-19 i 2022-23. Rydym wedi adolygu ein cynllun yn rheolaidd, wrth i ni gyflawni yn unol ag ef, ac er bod ‘beth’ rydym ni’n ei wneud wedi aros yr un fath, ar y cyfan, rydym wedi gwneud newidiadau mwy arwyddocaol i ‘sut’ rydym yn gweithio. Adlewyrchir y rhain yn ein cenhadaeth, diben a gwerthoedd (tudalen 9), ein cynllun pobl yn gyntaf ‘Gweithle Gwych’ (‘Great place to work’)[1] a’n ‘Strategaeth Cwsmeriaid’ (Customer Strategy)[2]. Hefyd, rydym wedi parhau i ddysgu, myfyrio ac addasu i fyd sy’n newid yn gyflym.

Gallwch gael mwy o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon dros y cyfnod hwn.




1 https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-equality-diversity-and-inclusion-strategy-2021-2024
2 https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-customer-strategy-2019-to-2023

# Themâu Cynllun Busnes 2022–25




Cyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu 14

Sicrhau cynaliadwyedd 18

Gweithio gyda phobl eraill i greu gwerth 22

Creu lle gwych i weithio 26

Sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol 30

# Cyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu




**Ar 25 Medi 2021, adroddwyd am achos difrifol o ymsuddiant glofaol yn cynnwys 8 o fflatiau yn Saltcoats, Swydd Aeron, Yr Alban.**

**Buom yn gweithio'n agos â'r cyngor lleol i roi cymorth uniongyrchol i'r trigolion a adawodd eu cartrefi. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol i roi sicrwydd y byddwn yn rhoi gwybodaeth reolaidd iddynt am y gwaith atgyweirio.**

Rydym yn sefydliad gweithredol ymarferol, sy'n cyflawni nifer o ddyletswyddau craidd a statudol ledled Prydain Fawr i helpu cadw pobl, dŵr yfed a'r amgylchedd yn ddiogel rhag effeithiau ein gwaddol glofaol. Mae hyn yn cynnwys gallu i ymateb i ddigwyddiadau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a'r gymuned. Rydym yn gweithredu ag uniondeb, yn gwneud yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud, ac yn gwrando a dysgu er mwyn i ni allu gwella'n barhaus. Trwy weithio gyda phartneriaid eraill, a thrwyddynt, gallwn ddarparu ymateb cydgysylltiedig ac uchafu'r canlyniadau y gellir eu cyflawni. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth 'i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl a'r amgylchedd mewn ardaloedd glofaol.'

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth trwy ein Cynllun Busnes diwethaf, yn unol â'r manylion ar dudalen 12. Dangosir un enghraifft o hyn yn y blwch ar yr ochr chwith.

# Y 3 blynedd nesaf



Ers ein creu ym 1994, rydym wedi cael ffocws cryf ar arbenigedd technegol, proffesiynoldeb a chyflawni i ddatrys y problemau mwy arferol a chymhleth sy'n ein hwynebu o ran ein gwaddol glofaol. Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes diwethaf, rydym wedi cryfhau ein ffocws ar ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau, ac wedi gwrando ar ein cwsmeriaid a'n partneriaid, er mwyn i ni allu blaenoriaethu gweithredu a datblygu yn y meysydd sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'r ymagwedd hon yn ategu ein ffordd o feddwl am y 3 blynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod bod cyd-destunau a safbwyntiau pobl a chymunedau yn amrywio. Wrth weithio gyda chymunedau a thrigolion trwy ymgysylltu, byddwn yn trin pob achos fel achos unigryw, ac yn gweithio gyda phobl i gael y canlyniadau gorau y gallwn ni, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar arian cyhoeddus y mae'n rhaid i ni weithio oddi mewn iddynt.

> “Rydym yn cydnabod bod cyd-destunau a safbwyntiau pobl a chymunedau yn amrywio. Wrth weithio gyda chymunedau a thrigolion trwy ymgysylltu, byddwn yn trin pob achos fel achos unigryw, ac yn gweithio gyda phobl i gael y canlyniadau gorau y gallwn ni, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar arian cyhoeddus y mae'n rhaid i ni weithio oddi mewn iddynt.”

Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud mewn ardaloedd meysydd glo fel bod cymunedau'n gwybod pryd a sut i gysylltu â ni, a bod yn hyderus y byddwn yn darparu gwybodaeth, arbenigedd a chymorth amserol pryd bynnag y bydd angen. I gefnogi hyn, byddwn yn cryfhau perthnasoedd presennol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lleol, ac yn ceisio nodi mwy o gyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.

Byddwn yn defnyddio ein hystâd a'n gwybodaeth yn effeithiol i alluogi adfywio a datblygu er budd cymunedau. Byddwn yn adeiladu ar adborth cwsmeriaid i wella ein gwasanaethau digidol ymhellach, gan wneud ein gwybodaeth yn fwy hygyrch a chynyddu'r opsiynau hunanwasanaethu rydym yn gwybod bod ein cwsmeriaid eu heisiau.

Rydym yn cydnabod bod yr holl gwsmeriaid yn unigolion, ac felly bydd ein prosesau cwsmeriaid yn ystyried amgylchiadau unigol ac anghenion newidiol. Byddwn yn gofyn am adborth gan drigolion, partneriaid lleol a rhanddeiliaid ehangach ar ein gwasanaethau i'n helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu ymateb effeithiol ac empathig i ddigwyddiadau ac argyfyngau a chyflwyno ein gwaith craidd i ddiogelu bywyd, dŵr yfed a'r amgylchedd yn ategu hyn oll.



# Cyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu



## Sut byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?

| Canlyniad cerdyn sgorio: | Erbyn mis Ebrill 2025: |
| --- | --- |
| **Rydym yn gwella ein gwasanaethau cyflenwi rheng flaen ar gyfer ein cwsmeriaid fel ein bod yn sicrhau mwy o ganlyniadau ac yn haws delio â ni** | • Byddwn yn trin 13 biliwn litr o ddŵr pyllau glo yn ychwanegol bob blwyddyn i atal llygredd mewn dŵr yfed, afonydd neu'r môr erbyn 2025. Mae hyn yn gynnydd o dros 10% ar gyfeintiau presennol (128 biliwn litr y flwyddyn).<br>• Byddwn yn datrys 90% o beryglon a hawliadau yn sgil ymsuddiant glofaol o fewn 12 mis.<br>• Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth, gwasanaethau ac ystâd er mwyn gallu adfywio a datblygu 300,000 hectar yn ddiogel ar gyfer cymunedau lleol yn yr hen feysydd glo.<br>• Byddwn yn cyflawni achrediad ServiceMark am safonau ein gwasanaeth gan y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid. |

## Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith i:

- Foderneiddio a phroffesiynoli ein galluoedd i ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i fod yn ymatebwr Categori 2 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.
- Gweithio hyd yn oed yn fwy mewn partneriaeth i sicrhau canlyniadau ehangach.
- Bod yn fwy gweladwy, fel bod cwsmeriaid a phartneriaid yn fwy ymwybodol o'n gwasanaethau a sut gallwn ni helpu.

**Cynlluniau manylach sy'n ategu'r thema hon:** Safonau[3] a Strategaeth Cwsmeriaid[4].

[3] https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-customer-standards
[4] https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-customer-strategy-2019-to-2023

# Sicrhau cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy, ac eisiau defnyddio ein gwaith i helpu sicrhau newid cadarnhaol yn y cymunedau rydym yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth wirioneddol i gynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, ac ystyried y ffordd hon o feddwl wrth i ni wneud penderfyniadau ac adrodd.

I wneud hyn, byddwn yn gweithio gydag eraill, yn rhannu dysgu ac yn cymryd camau ymarferol i symud tuag at ein huchelgais i fod yn sefydliad sero net erbyn 2030, yn unol ag ymrwymiad ein bwrdd. Byddwn yn parhau i weithredu i ddatgarboneiddio ein gweithgareddau ac uchafu atafaelu carbon naturiol ar ein safleoedd. Hefyd, byddwn yn gweithredu i gefnogi adferiad natur trwy reoli ein safleoedd a'n hystâd yn y ffordd orau posibl, ac yn defnyddio ymagwedd gylchol at ein gwaith, gan leihau gwastraff a defnydd o adnoddau naturiol.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar hyn trwy ein Cynllun Busnes diwethaf, y ceir manylion amdano ar dudalen 12. Rhoddir enghraifft o hyn yn y blwch ar yr ochr dde.



**Rydym wedi gosod paneli solar ar sawl un o'n safleoedd, ac erbyn hyn yn cynhyrchu oddeutu 1.4 GWh o ynni adnewyddadwy bob blwyddyn, gan arbed £200,000 a 314 tunnell o garbon bob blwyddyn. Bydd yr hyn rydym ni wedi'i ddysgu yn llywio mwy o gynlluniau ynni adnewyddadwy yn y Cynllun Busnes hwn.**

# Y 3 blynedd nesaf



Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes diwethaf, rydym wedi cymryd camau i gynyddu hunangynhyrchu ynni adnewyddadwy o'n safleoedd ac ystyried buddion amgylcheddol trwy ein rheolaeth. Yn y 3 blynedd nesaf, byddwn yn cynyddu cyflymdra newid er mwyn i ni allu gwneud cynnydd clir a mesuradwy tuag at ddatgarboneiddio, gan ddefnyddio ein hystâd i helpu adferiad natur, cynyddu mynediad at ein safleoedd ac ystyried budd cymdeithasol yn ein ffordd o feddwl a'n penderfyniadau. Byddwn yn lleihau defnydd o adnoddau, yn cadw deunyddiau o fewn y gadwyn gwerth ac yn cefnogi economïau lleol trwy ein harferion caffael.

Bydd y rhan fwyaf o hyn yn cael ei wneud trwy ymgymryd â'n gwaith craidd yn graffach ac uchafu canlyniadau lluosog, ble bynnag y bo modd. Byddwn yn cymryd camau i ddatgarboneiddio trwy ddefnyddio llai o ynni i gyflawni ein gweithrediadau, cynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar safleoedd a lleihau allyriadau o adeiladu trwy ddefnyddio deunyddiau a dyluniadau effaith is. Hefyd, byddwn yn defnyddio'r cyfnod hwn i nodi a meintoli meysydd sydd hyd yn oed yn fwy heriol – er enghraifft allyriadau afreoledig sy'n ffoi o byllau glo segur ac allyriadau anuniongyrchol a gynhyrchir o'r nifer fach o drwyddedau cloddio clo gweithredol.

> "Byddwn yn dysgu mwy am effeithiau newid hinsawdd ar ein hasedau a'n hystâd pyllau glo, er mwyn i ni allu datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer rheoli ac addasu risg newid hinsawdd yn gost effeithiol, a bod yn barod i ymateb i nifer gynyddol a/neu ddigwyddiadau effaith uwch. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, partneriaid a chyd-sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau i fod hyd yn oed yn fwy parod."

Byddwn yn cymryd camau tra'n defnyddio'r 3 blynedd hyn mewn ffordd alluogol hefyd – ymgymryd â mwy o ymchwil a datblygu i gefnogi ein huchelgeisiau sero net a meincnodi'r cynefinoedd a bioamrywiaeth ar draws ein hystâd - i lywio sut y gellir gwella ein safleoedd ar gyfer natur a darparu atebion wedi'u seilio ar natur.

Byddwn yn dysgu mwy am effeithiau newid hinsawdd ar ein hasedau a'n hystâd pyllau glo, er mwyn i ni allu datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer rheoli ac addasu risg newid hinsawdd yn gost effeithiol, a bod yn barod i ymateb i nifer gynyddol a/neu ddigwyddiadau effaith uwch.

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, partneriaid a chyd-sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau i fod hyd yn oed yn fwy parod.

Byddwn yn esblygu ein penderfyniadau a'n ffordd o adrodd i ddangos ein heffeithiau, heriau a buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac effeithiau eraill yn gliriach, ynghyd ag agweddau ariannol. Byddwn yn defnyddio ymagwedd dryloyw i ddangos ein cynnydd a'n heriau



# Sicrhau cynaliadwyedd

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

| Canlyniad cerdyn sgorio: | Erbyn mis Ebrill 2025: |
|---|---|
| **Gwneud mwy o gynnydd clir ar ein taith i gyflawni carbon sero net erbyn 2030 a chyflawni agweddau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach ar gynaliadwyedd** | • Byddwn yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n hystâd, gweithrediadau a theithio 65% o'n gwaelodlin 2017-2018<br>• Byddwn yn gweithredu adrodd integredig sy'n defnyddio targedau wedi'u seilio ar dystiolaeth, a rhai mesuradwy, i ddangos ein hymrwymiad a'n cynnydd o ran ein nodau cynaliadwyedd<br>• Byddwn yn deall ac yn cydnabod effeithiau newid hinsawdd a thywydd eithafol ar ein hystâd a'n gweithrediadau gyda chynllun addasu wedi'i ddiffinio'n glir.<br>• Bydd gennym gynllun adfer natur a byddwn yn dangos sut caiff ein hystâd a'n gweithrediadau eu huchafu ar gyfer adferiad natur. |

## Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith i:

- Asesiadau gwaelodlin ansawdd natur a bioamrywiaeth ar draws ein hystâd.
- Cydweithio â'n cadwyn gyflenwi i uchafu budd economaidd amgylcheddol, cymdeithasol a lleol o gaffael.
- Cynllunio ac addasu ymhellach ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ar ein hasedau a helpu hysbysu cymunedau, partneriaid ac ymatebwyr i argyfyngau eraill.

**Cynlluniau manylach sy'n ategu'r thema hon:** Cynllun Cynaliadwyedd – bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

# Gweithio gydag eraill i greu gwerth


Mae creu gwerth (ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol) yn allweddol i'n ffordd o feddwl, ac rydym yn chwilio'n barhaus am arloesedd ac effeithlonrwydd newydd i gyflawni canlyniadau gwell, cyfleoedd newydd ac/neu arbedion i'r trethdalwr. Rydym yn angerddol ynglŷn â chymunedau glofaol ar y meysydd glo a thu hwnt, ac yn defnyddio ein gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd i roi hyder i'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn. Rydym yn galluogi cyfle a budd, lle bo modd, o'n gwaddol glofaol. Er enghraifft, gall cynlluniau gwres dŵr pyllau glo ddarparu gwres a dŵr poeth ar gyfer cartrefi a busnesau.

Mae gennym ni wybodaeth, asedau a data unigryw, ond yn cydnabod nad oes gennym ni'r holl sgiliau neu ddylanwad uniongyrchol sydd eu hangen i uchafu'r gwerth y gallwn ei gynhyrchu. Mae ein profiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn dangos bod gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar brosiectau ar y cyd yn fuddiol i'r ddwy ochr, ac yn gallu darparu canlyniadau gwell a chyflymach. Byddwn yn adeiladu ar y model hwnnw wrth i ni ddod â data, cynhyrchion a gwasanaethau i'r farchnad a datblygu mentrau newydd, gan sicrhau ein bod bob amser yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn hawdd i weithio gyda ni. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar hyn trwy ein Cynllun Busnes diwethaf, yn unol â'r manylion ar dudalen 12. Rhoddir un enghraifft o hyn isod.

**Rydym wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i archwilio opsiynau newydd ar gyfer ocr – ei newid o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i gynnyrch buddiol. Sgil-gynnyrch sy'n gyfoethog mewn haearn yw ocr, o'n cynlluniau trin dŵr pyllau glo.**

**Roedd prosiect arloesol gyda Merseylink yn cynnwys trin pridd oedd wedi'i halogi'n sylweddol ag arsenig ar safle tollbont Mersey Gateway yn Sir Gaer.**

**Yn ogystal â dod â buddion o ran cynaliadwyedd, trwy dorri allyriadau carbon ac atal tirlenwi, amcangyfrifir bod ailddefnyddio'r deunydd gwastraff yn ddiogel wedi arbed tua £2 miliwn. Mae'r cydweithio arloesol hwn wedi cael ei gydnabod â 2 wobr, sef Ailddefnyddio Deunyddiau yn y Ffordd Orau, a Phrosiect Seilwaith Gorau yn Brownfield Awards 2020 Environment Analyst.**



# Y 3 blynedd nesaf



Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ein rhaglen arloesi eang o syniadau ar nifer fach o brosiectau pwrpasol. Yn y 3 blynedd nesaf, byddwn yn gweithio i wireddu mwy o'r rhain ac yn ehangu prosiectau llwyddiannus yr ydym eisoes wedi'u cyflwyno. Byddwn yn parhau i chwilio am werth, a chyflawni gwerth y tu hwnt i'n cylch gwaith trwy roi cefnogaeth i gyflawni blaenoriaethau allweddol y llywodraeth ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, fel carbon sero net, ffyniant bro, cyfiawnder hinsawdd a thegwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gwres dŵr pyllau glo yw ein cyfle mwyaf cyffrous, sydd â'r potensial i ddarparu gwres am bris sefydlog, carbon isel ac a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr ar gyfer cartrefi, busnesau, diwydiant ac amaethyddiaeth. Gan fod y cynllun cyntaf yn Lloegr bellach ar-lein, ac o leiaf un cynllun arall yn cael ei roi ar waith eleni, rydym wedi gweld diddordeb sylweddol gan y cyfryngau ac yn wleidyddol, ac mae gennym brosiectau eraill yn yr arfaeth.
Er mwyn ehangu hyn yn gyflymach, bydd angen i ni weithio gyda llywodraethau a gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Hefyd, byddwn yn datblygu ac yn codi

> "Gwres dŵr pyllau glo yw ein cyfle mwyaf cyffrous, sydd â'r potensial i ddarparu gwres am bris sefydlog, carbon isel ac a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr ar gyfer cartrefi, busnesau, diwydiant ac amaethyddiaeth."

ymwybyddiaeth am gyfleoedd ehangach o ran dŵr pyllau glo, gan gynnwys oeri a storio gwres o ffynonellau ynni gwyrdd eraill, fel pŵer gwynt.

Byddwn yn adeiladu ar ein dealltwriaeth o'r sgil-gynhyrchion yr ydym yn eu creu i agor marchnadoedd newydd a lleihau'r angen yn sylweddol i unrhyw un o'r deunyddiau a gynhyrchwn fynd i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn ehangu'r gwasanaethau a ddarparwn i sefydliadau eraill trwy ddangos y gwerth a'r arbenigedd sydd gennym i'w cynnig. Byddwn yn ystyried sut gallem gefnogi gwaith ehangach y llywodraeth dramor, wrth i wledydd fynd ati i 'ddarparu pŵer ar ôl glo' a datgomisiynu eu diwydiant fel rhan o'u cynlluniau carbon sero net ac ymrwymiadau COP26.

Mae'r farchnad eiddo a datblygu yn newid yn gyflym a'r dyfodol ar gyfer trafodiadau eiddo yn gynyddol ddigidol, gyda sefydliadau benthyca a chyfreithiol yn gofyn am fynediad at ddata tra strwythuredig yn hytrach nag adroddiadau arferol. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau cryf yn y sector hwn, a thrwy weithio gyda phartneriaid, byddwn yn parhau i ddiweddaru ein data a'i ddigideiddio i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd a gwell, fel y gallwn ymateb yn ddynamig i anghenion ein cwsmeriaid. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau benthyca, syrfewyr a chyfreithwyr am ein gwaith a'n rôl i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn rydym ni'n ei wneud, er mwyn i ni allu parhau i roi hyder i bawb sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu cartrefi, tir ac eiddo mewn ardaloedd meysydd glo.

Bydd hyn oll yn cael ei ategu gan ymchwil a datblygu parhaus a gweithio gyda phrifysgolion a sefydliadau partner, i lywio ein gwaith yn well a'n galluogi i wneud penderfyniadau wedi'u hategu gan wyddoniaeth a thystiolaeth, i roi hyder i'n cleientiaid a'n cwsmeriaid.


gateshead
energy
company

# Gweithio gydag eraill i greu gwerth

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?



| Canlyniad cerdyn sgorio: | Erbyn mis Ebrill 2025: |
| --- | --- |
| **Byddwn yn cynhyrchu mwy o werth ac yn cyflawni budd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach o'n hasedau, ein gwasanaethau a'n gwaith** | • Byddwn yn galluogi ac yn dylanwadu ar 4 cynllun gwres dŵr pyllau glo gweithredol ledled Prydain Fawr.<br>• Byddwn yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu 95% o'r ocr haearn a solidau haearn a gynhyrchir o'n cynlluniau trin dŵr pyllau glo i atal gwaredu mewn safleoedd tirlenwi.<br>• Byddwn yn cynyddu ein gwasanaeth a gyflwynir i bartneriaid 30% o'n gwaelodlin 2021/22 o £249 miliwn y flwyddyn<br>• Byddwn yn cynorthwyo'r diwydiant benthyca wrth wneud penderfyniadau cyflymach ar gyfer pobl sy'n prynu tai ar y meysydd glo |

## Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith i:

- Gefnogi ac annog polisi llywodraeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i hwyluso rhwydweithiau gwres a gwres dŵr pyllau glo yn benodol.
- Archwilio opsiynau cyllido a galluogi amgen a/neu gynlluniau peilot i weithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.
- Ymgysylltu â'r sector eiddo i gefnogi'r farchnad dai ar y meysydd glo. Datblygu cysylltiadau cryf â benthycwyr allweddol, a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi symleiddio trawsgludo ar gyfer y marchnadoedd cartrefi a manwerthu.

**Cynlluniau manylach sy'n ategu'r thema hon:** Fframwaith Cyfleoedd Gwres Pyllau Glo a Fframwaith Cyfleoedd Sgil-gynhyrchion – bydd y naill a'r llall yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

# Creu lle gwych i weithio

Pobl wych sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn – gallwn ond cyflawni'r gwaith pwysig rydym ni'n ei wneud i gadw pobl yn ddiogel, diogelu'r amgylchedd ac uchafu cyfleoedd os gallwn ni eu denu, eu recriwtio a'u cadw. I wneud hynny, rhaid i ni fod yn 'lle gwirioneddol wych i weithio' sy'n denu doniau amrywiol ledled pob rhan o Brydain Fawr, ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, gyda'r cyfle i dyfu a datblygu. Rydym ni eisiau bod yn gyflogwr delfrydol sy'n fywiog, dynamig a modern ac yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar les, wedi'i ategu gan ein gwerthoedd.

Rydym ni eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran yr uchelgeisiau hyn. Cafodd ein cynllun gwreiddiol, 'Lle gwych i weithio' ei ddatblygu a'i lansio yn 2018 gyda chynllun gweithredu 5 mlynedd i greu gweithle cynaliadwy, medrus a datblygedig, mwy amrywiol a llawn cymhelliant a oedd yn ein galluogi ni'n well i gyflawni ar gyfer y cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.



# Y 3 blynedd nesaf

Mae ein cynllun cyntaf, 'Lle gwych i weithio' wedi'n helpu i greu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar bobl gyda lles, cynhwysiant a'n gwerthoedd wrth wraidd sut rydym ni'n gwneud ein gwaith. Dros y 3 blynedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar hyn ymhellach, gan ganolbwyntio ein hymdrechion mewn 4 maes allweddol, sef:

## Arweinyddiaeth a dysgu

Byddwn yn datblygu rheolwyr ac arweinwyr gwych, sy'n gallu gwneud penderfyniadau cyfannol a sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion busnes ac anghenion unigol. Byddwn yn darparu'r offer, cyngor ac arbenigedd i'w cynorthwyo, a dysgu a datblygiad i bawb gynnal sgiliau ac arbenigedd technegol a datblygu sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio i drosglwyddo gwybodaeth gan y rheiny sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiwydiannau glofaol i gydweithwyr eraill.

## Diogelwch, lles a chynhwysiant

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl a lles ochr yn ochr ag iechyd a diogelwch ym mhopeth a wnawn.

Rydym ni eisiau diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn gallu perthyn ac yn gallu dod â nhw eu hunain yn gyfan gwbl i'r gwaith. Rydym yn annog amrywiaeth o ran ffordd o feddwl, anghytuno cadarn a pharchus ac amgylchedd lle nad oes y fath beth â chwestiwn gwirion. Byddwn yn annog diwylliant dysgu, lle gallwn wneud camgymeriadau a gwneud yn well. Pan fyddwn yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi a'n cynnwys, gallwn fynd i'r afael yn well â phroblemau cymhleth a chyfleoedd sy'n dod yn sgil ein gwaddol glofaol, a darparu gwasanaeth cwsmeriaid gofalgar a hyderus. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac amrywiaeth eang o sefydliadau i'n cefnogi i gyflawni hyn.

## Ymgysylltu a phrofiad cyflogeion

Byddwn yn parhau i wrando a dysgu oddi wrth ein pobl, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gael eu clywed. Mae ein grŵp ymgysylltu â staff, fforymau a rhwydweithiau staff yn bwysig yn hyn o beth. Byddwn yn cynnal arolygon pobl ac arolygon cyffredin rheolaidd i alluogi pobl i rannu eu meddyliau a'u teimladau yn hyderus a'n galluogi i gymryd camau ar y cyd i wella. Byddwn yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn galluogi staff ar draws y sefydliad i rannu eu gwaith, dathlu llwyddiant a dysgu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth siaradwyr a sefydliadau allanol. Byddwn yn gweithio o fewn y fframwaith sector cyhoeddus i ddarparu'r pecyn gwobrwyo a chydnabyddiaeth gorau a mwy cyfannol y gallwn.

## Ffyrdd modern a dynamig o weithio

Byddwn yn adolygu ac yn esblygu ein fframwaith gweithio hybrid i uchafu buddion hyblygrwydd a recriwtio o bob cwr o Brydain Fawr lle bo modd, tra'n cynnal effeithiolrwydd, tegwch ac effeithlonrwydd. Byddwn yn fwy dynamig wrth recriwtio, gan ddenu ceisiadau o'r ardaloedd ehangaf a mwyaf amrywiol sy'n bosibl, ac edrych ar wahanol ffynonellau o ddoniau, gan chwilio am gyfleoedd i helpu ffynnu a gwella symudedd cymdeithasol ble bynnag y gallwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector, a dysgu oddi wrthynt, i rannu arfer gorau, meincnodi ein hymagweddau a dysgu gyda'n gilydd.



# Creu lle gwych i weithio

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?



| Canlyniad cerdyn sgorio: | Erbyn mis Ebrill 2025: |
| --- | --- |
| **Byddwn yn gyflogwr delfrydol lle mae ein pobl yn teimlo y gallant berthyn. Bydd gennym ddiwylliant cynhwysol gyda ffocws cryf ar les, dysgu a datblygu. Rydym yn ymfalchïo mewn cyflawni gwaith pwysig ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac yn byw yn unol â'n gwerthoedd** | • Byddwn yn gwneud cynnydd amlwg tuag at sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu mwy o amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Prydain Fawr.<br>• Byddwn yn cefnogi ffyniant bro trwy gymryd camau i wella symudedd cymdeithasol ac yn darparu prentisiaethau ar gyfer unigolion sy'n byw ar y meysydd glo, ac sydd â chysylltiad teuluol â gwaith glo.<br>• Byddwn yn cyflawni gradd 5 seren yn Archwiliad Iechyd, Diogelwch a Lles 5 Seren y British Safety Council.<br>• Byddwn yn cynyddu ein sgôr ymgysylltu ag arolwg cyflogeion 10% yn erbyn meincnod 2019, sef 67%. |

## Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith i:

- Ddarparu dysgu a datblygiad targedig ar gyfer rheolwyr a staff, gan atgyfnerthu ein cenhadaeth, diben a gwerthoedd, a chynnal a datblygu ein sgiliau a'n harbenigedd technegol.
- Datblygu cynllun recriwtio a darparu adnoddau sy'n cefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn adlewyrchu'r amgylchedd gwaith newidiol a chyfleoedd hybrid.
- Adolygu ac esblygu ein polisïau a'n prosesau o ran pobl i sicrhau eu bod yn effeithiol, yn grymuso ac yn ysbrydoli mwy na chydymffurfio gwaelodlin.

**Cynlluniau manylach sy'n ategu'r thema hon:** Cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant[5]; Cynllun Gwrth-hiliaeth[6], Cynllun Iechyd, Diogelwch a Lles – byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst 2022.

[5] https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-equality-diversity-and-inclusion-strategy-2021-2024
[6] https://www.gov.uk/government/publications/coal-authority-antiracism-plan-2022-to-2025



# Sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol ac mae angen i ni ei alluogi trwy systemau ac ymagweddau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a chefnogi ein blaenoriaethau yn effeithlon ac yn dda. Mae ein gwybodaeth, wedi'i chyfuno â dealltwriaeth fanwl ein pobl o'r risgiau a'r cyfleoedd yn sgil cloddio glo yn y gorffennol, wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym yn dal data awdurdodol ar dros 170,000 o gofnodion pyllau glo ynghyd â phyllau glo ar y ddaear a rhai tanddaearol sydd o dan oddeutu 25% o'r holl eiddo ym Mhrydain Fawr. Caiff y data hwn ei ddiweddaru bob dydd o wybodaeth sy'n cael ei bwydo o'n gwaith o ddydd i ddydd mewn ardaloedd pyllau glo. Mae'n ategu ein holl waith, ac yn cynhyrchu oddeutu 200,000 o adroddiadau ar byllau glo bob blwyddyn. Mae hyn yn hanfodol i'n gwaith ac yn gallu cefnogi gwaith ein partneriaid. Trwy'r cyfnod hwn, byddwn yn parhau i'w ddiweddaru a'i foderneiddio at ddibenion newydd, ac yn parhau i ddiweddaru'r seilwaith TG ategol sy'n ategu hynny a systemau eraill.

Rydym eisoes wedi dechrau mudo ein systemau i blatfform cwmwl i ddarparu gwydnwch a hyblygrwydd cynyddol. Rydym wedi dysgu o bandemig COVID-19 ac yn cydnabod bod angen i systemau yn y dyfodol ei gwneud yn hawdd i gydweithwyr gyflwyno gwasanaethau a chydweithio â'i gilydd, ein cadwyn gyflenwi a phartneriaid, boed hynny yn y maes, gartref neu yn y swyddfa.

Mae gan bob un o'n timau cefnogi rôl allweddol mewn galluogi cyflenwi rheng flaen ac ymateb i ddigwyddiadau – p'un a ydynt yn rhybuddio ac yn hysbysu cymunedau lleol; yn sicrhau systemau cyllid syml, sy'n golygu y gellir symud teulu allan o dŷ sy'n ymsuddo ar benwythnos; neu sicrhau ein bod yn caffael gwasanaethau yn effeithiol, ac yn rheoli ein rhaglenni yn y ffordd fwyaf effeithlon i wneud y mwyaf o bob punt rydym yn ei gwario. Dros y 3 blynedd nesaf, byddwn yn ei gwneud yn haws iddynt wneud eu gwaith i gefnogi'r cymunedau rheng flaen rydym yn eu gwasanaethu.

# Y 3 blynedd nesaf

Dros y 3 blynedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed er 2018 trwy sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ein hymdrech mewn 4 maes allweddol, sef:

## Gwasanaethau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid

Byddwn yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid o ran arloesedd, dyluniad a datblygiad ein systemau a'n gwasanaethau – gan weithio i ddeall eu hanghenion a gwella profiad y cwsmer trwy ddefnyddio systemau 'digidol yn bennaf' sy'n golygu y gellir mynd at ein gwasanaethau a'n gwybodaeth ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw. Bydd yr holl systemau, gwasanaethau a phrosesau trafodiadol newydd yn mabwysiadu safonau dylunio, gwasanaeth a chynwysoldeb GOV.UK a byddwn yn profi a sicrhau ein gwasanaethau yn annibynnol. Byddwn yn symleiddio ac yn diweddaru ein gwefan ar sail adborth.

## Moderneiddio ein data a'n gwybodaeth

Byddwn yn parhau i ddatblygu a diweddaru ein data a gwybodaeth i ddiwallu anghenion ein busnes a'n cwsmeriaid, ac yn sicrhau ein bod yn dilyn egwyddorion data FAIR (Canfyddadwy, Hygyrch, Rhyngweithredol ac Ailddefnyddiadwy). Bydd ein gweithdrefnau rheoli cofnodion yn sicrhau bod gan yr holl ddata a gwybodaeth berchnogaeth glir a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Os oes modd, byddwn yn trefnu bod ein hasedau data hanesyddol ar gael ar-lein, gan gynnwys ein cynlluniau a'n ffotograffau, fel y gellir eu hailddefnyddio i gefnogi ceisiadau newydd, arloesi ac addysg. Byddwn yn datblygu cynllun tymor hwy ar gyfer ein data i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn gallu cael ei ddefnyddio gan bobl eraill i alluogi canlyniadau ehangach ar gyfer busnesau a chymunedau.

## Offer cydweithredol ar gyfer ein pobl

Byddwn yn defnyddio technoleg ac offer i greu amgylchedd gweithio modern hyblyg a chydweithredol, hyrwyddo ymagwedd 'Un Awdurdod Glo' a galluogi ein pobl i weithio'n graff ble bynnag y maent wedi eu lleoli. Byddwn yn esblygu gweithio hybrid wrth i ni ddysgu oddi wrtho, gan fabwysiadu arferion gweithio craffach sy'n galluogi cydweithwyr i gyfrannu a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys ble bynnag y maent, ac yn lleihau teithio diangen. Hefyd, bydd cydweithio'n caniatáu gweithio agosach gyda'n partneriaid a'n cadwyn gyflenwi.

## Systemau a phrosesau gwydn

Byddwn yn adnewyddu ein seilwaith â thechnoleg fodern fel bod ein systemau yn hygyrch, yn effeithlon ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd technoleg, dylunio system a defnydd deallus o'n gwybodaeth i yrru penderfyniadau yn cefnogi ein hamcanion cynaliadwyedd a charbon sero net. Bydd ein systemau gwybodaeth am byllau glo yn cael eu symleiddio, eu diweddaru a'u gweithredu yn y Cwmwl - gan sicrhau eu bod yn wydn, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn cynnig hyblygrwydd i gefnogi sefydliad sy'n gynyddol gymhleth, ac anghenion ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Byddwn yn parhau i ddefnyddio systemau cefn swyddfa masnachol parod a symlach ar gyfer ein cymwysiadau mwy rheolaidd. Os yw'n briodol, dros y 3 blynedd nesaf, byddwn yn ad-drefnu o gwmpas platfform cwmwl Microsoft 365 i ddarparu cyfres o offer cydgysylltiedig ar gyfer ein pobl sy'n hyrwyddo gweithio effeithiol a chydweithio mewnol ac allanol.


SAMSUNG

# Sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

| **Canlyniad cerdyn sgorio:** | **Erbyn mis Ebrill 2025:** |
| --- | --- |
| **Byddwn yn datblygu systemau a phrosesau modern a gwydn sy'n addas ar gyfer y dyfodol, yn cefnogi ein pobl ac yn ei gwneud yn haws i'n cwsmeriaid a'n partneriaid ddelio â ni** | • Byddwn yn diweddaru 100% o'n systemau TG strategol ac yn eu cynnal yn y cwmwl.<br>• Byddwn yn gwneud ein gwasanaethau a gwybodaeth ddigidol yn fwy hygyrch, yn berthnasol a gydag opsiynau hunanwasanaethu cynyddol – bydd 100% o wasanaethau yn ddigidol yn bennaf a bydd 100% o'n systemau trafodiadol yn dilyn safonau gwasanaeth a dylunio GOV.UK.<br>• Byddwn yn gwneud cynnydd amlwg ar weithredu systemau sy'n caniatáu cydweithio symlach a gwell o fewn y sefydliad a gyda phartneriaid.<br>• Byddwn yn gwneud cynnydd amlwg yn gwella ein graddau hunanasesu data Canfyddadwy, Hygyrch, Rhyngweithredol ac Ailddefnyddiadwy (FAIR). |

## Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith i:

- Ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau effeithlon lle mae'r cwsmer yn ganolog, gyda chyflymdra, gan gyflwyno adborth mewnol ac allanol yn ein gwaith.
- Cynnal a datblygu prosesau llywodraethu, risg, rheoli cofnodion a chynllunio busnes effeithiol ymhellach, ac ymgorffori ymagwedd ein rhaglen swyddfa yn gliriach ym mhob prosiect i wella cynllunio, cyflawni, buddion ac effeithlonrwydd.
- Dysgu oddi wrth sefydliadau eraill ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, elusennol a gwirfoddol.

**Cynlluniau manylach sy'n ategu'r thema hon:** Ein Cynllun Data a Gwybodaeth – bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

# Ein pobl



**Rhannodd Steve, Ymgynghorydd Pyllau Glo a Rheolwr Gwybodaeth a chynrychiolydd y Grŵp Ymgysylltu â Staff, ei farn gyda ni ynglŷn â beth sy'n gwneud yr Awdurdod Glo yn lle gwych i weithio:**

"Ar ôl gweithio gyda'r sefydliad ers amser hir, yr un peth sydd heb newid yw bod pawb yn gyfforddus i fod yn agored a gonest ynglŷn â phwy ydyn ni. Mae hyn yn galluogi perthnasoedd rhagorol gyda chwsmeriaid a chydweithwyr ac yn ein galluogi i fwynhau gweithio mewn amgylchedd sy'n gwbl gynhwysol."



**Bu Mathura, Rheolwr Prosiect - Tîm Cyflwyno Prosiectau Amgylcheddol a Chyd-gadeirydd ein Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol, yn sôn wrthym am ba newidiadau mae hi wedi eu gweld ers dechrau gweithio i ni:**

"Ers i mi ymuno, mae gennym ni nawr weithlu mwy cynhwysol a llawer o rwydweithiau, sy'n galluogi staff i rannu eu meddyliau mewn gofod diogel. O fewn ein ffordd gynaliadwy o gyflwyno prosiectau, mae'n wych ein gweld yn cymryd mwy o gamau tuag at ein nodau carbon sero net."



**Mae Julia, Cynorthwyydd Gweithredol i'r Cyfarwyddwr Cymunedol ac Ymateb i Argyfyngau, yn sôn am sut mae'r Awdurdod Glo yn esblygu:**

"Ymunais ym mis Mehefin 2021, ac mae'n newid a datblygu'n barhaus. Hyd yn oed yn y cyfnod byr rydw i wedi bod yma, rydym ni wedi symud o weithio o gartref i weithio hybrid, wedi creu cyfarwyddiaeth newydd ac wedi ffurfio'r Cynllun Busnes newydd. Dydy'r Awdurdod byth yn segur."



**Mae Sean, Datblygwr Gwe, yn rhannu ei falchder ynglŷn â bod yn aelod o'r Awdurdod Glo:**

"Rwy'n cofio'r 'Alwad i Bob Aelod o Staff' i mi fynychu, a rhyfeddu at y gwaith rydym ni'n ei wneud i ddiogelu cymunedau lleol – roedd gen i ymdeimlad diffuant o falchder i fod yn rhan o sefydliad sy'n cael effaith wirioneddol ar fywydau pobl."



**Mae Alicia, o'n Swyddfa Rheoli Prosiectau, yn sôn am beth sy'n ei hysbrydoli am yr Awdurdod Glo:**

"Llawer o bethau, ond hoffwn i sôn am y pethau bach mwy hwyliog rydym ni'n eu gwneud, fel rownderi, cwisiau, heriau camau, cystadlaethau ffotograffau, ac ati, a bod yn rhan o'r rhwydweithiau sy'n dod â phobl at ei gilydd ar draws y sefydliad na fyddech chi efallai yn siarad â nhw fel arall."




**Soniodd Darren, Pennaeth Ymateb i Domenni Glo, wrthym am yr hyn mae eisiau ei gyflawni fwyaf yn ei rôl:**

"Parhau i sicrhau diogelwch cyhoeddus yn ymwneud â thomenni glo segur, ac addysgu pobl eraill am bwysigrwydd y maes hwn."



Creu dyfodol gwell i bobl a'r
amgylchedd mewn ardaloedd glofaol